



Adolygiad Timms
Caxton House
Tothill Street
London, SW1H 9AJ

Chwefror 2026

Diweddariad cyd-gadeiryddion, Chwefror 2026

Annwyl bawb,

Fel cyd-gadeiryddion Adolygiad Timms o Daliad Annibyniaeth Personol (PIP), rydym yn ysgrifennu eto i rannu diweddariad ar gynnydd yr Adolygiad ac i nodi beth sy'n digwydd nesaf.

O'r dechrau, mae'r Adolygiad wedi cael ei arwain gan set glir o egwyddorion: tegwch, parch, tryloywder, a'r rôl ganolog o brofiad byw. Rydym wedi ymrwmo i Adolygiad sy'n cael ei lunio gyda phobl anabl, ac nid yn unig amdanynt, oherwydd mae polisi'n gweithio orau pan gaiff ei adeiladu ochr yn ochr â'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf ganddo.

Yr hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yn hyn

Un o'n blaenoriaethau cyntaf oedd sefydlu grŵp llywio a allai ddod â phrofiad byw, arbenigedd proffesiynol, ac amrywiaeth o safbwyntiau ynghyd.

Cawsom dros 340 o geisiadau o ansawdd uchel i ymuno â'r grŵp llywio. Ar ôl ystyriaeth ofalus yn erbyn y meini prawf cyhoeddedig, rydym wedi penodi 12 aelod i'r grŵp. Gwnaeth ansawdd y ceisiadau a dderbyniwyd, a chyda lled y sgiliau a'r profiadau a ddygwyd gan ymgeiswyr, argraff fawr arnom.

Gyda'i gilydd, mae aelodau'r grŵp llywio yn dod â phrofiad ar draws meysydd gan gynnwys polisi lles, hygyrchedd, eiriolaeth, cyd-gynhyrchu, llywodraethu ac arweinyddiaeth o fewn Sefydliadau Pobl Anabl (DPOs). Mae gan bron pob aelod brofiad byw o anabledd neu gyflyrau iechyd hirdymor, gan gynnwys aelodau sydd â phrofiad uniongyrchol o weithio o fewn DPOs. Mae'r grŵp hwn yn amrywiol o ran nodweddion, gan gynnwys daearyddiaeth, ethnigrwydd a rhywioldeb.

Mae rhestr lawn o aelodau, ynghyd â bywgraffiadau byr, wedi'i chynnwys ar ddiwedd y llythyr hwn.

Rydym bob amser wedi bod yn glir na all unrhyw grŵp unigol gynrychioli'r ystod lawn o brofiadau o anabledd. Dyna pam na fydd y grŵp llywio yn gweithio ar ei ben ei hun, ond fel rhan o raglen ymgysylltu ehangach a gynlluniwyd i sicrhau bod llawer mwy o leisiau'n cael eu clywed wrth i'r Adolygiad fynd rhagddo.

Sut rydym yn cyflawni cyd-gynhyrchu

Yr Adolygiad hwn fydd y tro cyntaf i gyd-gynhyrchu gael ei wneud ar y raddfa hon gan lywodraeth y DU, er bod llawer o enghreifftiau mewn cyd-destunau lleol a datganoledig. Gwyddom o bobl anabl, DPOs ac arferion cyd-gynhyrchu hanesyddol bod ymgysylltiad ystyrlon yn gofyn am amser, gofal, hygyrchedd a'r gefnogaeth gywir.

Yn dilyn proses dendro gystadleuol, rydym wedi penodi The Public Service Consultants (PSC) i gefnogi cyflwyno cyd-gynhyrchu ar gyfer yr Adolygiad, gan weithio mewn partneriaeth â West of England Centre for Inclusive Living (WECIL), Sefydliad Pobl Anabl (DPO).

Dewiswyd y consortiwm hwn oherwydd eu hanes cryf o ymgysylltu cynhwysol a chyd-ddylunio, a'u profiad o weithio'n uniongyrchol gyda phobl anabl, DPOs, a'r llywodraeth. Eu rôl yw ein cefnogi i sicrhau bod cyd-gynhyrchu wedi'i ymgorffori drwy gydol yr Adolygiad ac wedi'i lunio gan ddylunio ar gyfer anableddau. Mae ymrwymiad partneriaeth PSC/WECIL i hygyrchedd a chynhwysiant anabledd ym mhob cam o'r broses, strategaethau ar gyfer ymgysylltu ystyrlon â rhanddeiliaid yn genedlaethol, a sgiliau a phrofiad o weithio gyda phobl anabl yn rhoi hyder i ni yn eu cyflwyno.

Bydd y PSC a WECIL yn gweithio ochr yn ochr â ni fel cyd-gadeiryddion, y grŵp llywio, a'r Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi dull cyd-gynhyrchu sy'n hygyrch, yn dryloyw, ac wedi'i seilio ar leisiau pobl anabl.

Beth sy'n digwydd nesaf

Mae gwaith y grŵp llywio eisoes ar y gweill. Yn dilyn galwad gyflwyniadol anffurfiol a sesiwn sefydlu yn gynharach y mis hwn, bydd yr ychydig wythnosau nesaf yn cynnwys:

- cyfarfodydd ffurfiol cyntaf y grŵp llywio;
- dechrau gwaith cyd-gynhyrchu a pholisi manwl ym mis Chwefror; a
- paratoi ar gyfer rhaglen ymgysylltu ehangach, gwbl hygyrch y tu hwnt i'r grŵp llywio, gan ddechrau yn y gwanwyn.

Rydym wedi ymrwymo i roi gwybod i bobl anabl, sefydliadau anabledd, a rhanddeiliaid eraill am gynnydd yr Adolygiad. Mae'r diweddariadau hyn yn rhan o'r ymrwymiad hwnnw, a byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth yn agored wrth i'r gwaith ddatblygu.

Diolch i chi am eich ymgysylltiad parhaus â'r Adolygiad. Mae eich diddordeb, eich her, a'ch cyfranogiad yn hanfodol i sicrhau bod y gwaith hwn yn deg, yn gredadwy, ac wedi'i wreiddio mewn profiad byw.

Yn gywir,

Dr Clenton Farquharson CBE

Sharon Brennan

Y Gwir Anrhydeddus Syr
Stephen Timms AS

Cyd-gadeiryddion Adolygiad Timms

Ynglŷn â'r grŵp llywio

Ar hyn o bryd, **Dr Mark Brookes MBE** yw Arweinydd Eiriolaeth Dimensions UK. Mae ganddo fwy na 30 mlynedd o brofiad o eiriol'n gyhoeddus dros bobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth ac ymgyrchu yn erbyn troseddau casineb. Mae Mark yn gweithio gyda'r Churchill Foundation, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Bwrdd Ymgynghorol y GIG, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Swyddfa Gartref, a heddluoedd y DU.

Mae **George Fielding BEM** yn eiriolwr hawliau anabledd sydd wedi gweithio ar draws llawer o wasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol, gydag arbenigedd gweithredol mewn gwaith ieuenctid, gofal cymdeithasol, a meithrin gallu cymunedol. Yn flaenorol, mae wedi cyd-sefydlu dau ddarparwr gofal cymdeithasol a reoleiddir gan CQC wrth ddechrau a datblygu tri mudiad cymdeithasol dan arweiniad ieuenctid, gan weithio i ddatblygu arferion gorau rhwng cenedlaethau mewn newid cymdeithasol. Mae'n ymgynghorydd anweithredol ar dri chwmni buddiant cymunedol sy'n arbenigo mewn cyd-gynhyrchu.

Mae **Tara Flood** yn ymgyrchydd hawliau anabledd ers amser maith, sydd wedi gweithio ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae hi'n Bennaeth Cyd-gynhyrchu ym Mwrdeistref Llundain Hammersmith a Fulham. Mae hi'n hyrwyddo'r Model Cymdeithasol o Anabledd, gan weithio gyda thrigolion i ysgogi newid polisi ac ailgynllunio a darparu gwasanaethau ar lefel leol.

Mae **Mark Fosbrook** yn athletwr Paralympaidd wedi ymddeol sy'n dod â'i brofiad bywyd ei hun, ac yn tynnu'n gyson ar wybodaeth gan eraill trwy feddylfryd sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n cael ei arwain gan werthoedd. Fel Rheolwr Cynhwysiant Anabledd yn Awdurdod Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr, mae'n cael ei ysgogi gan eirioli dros rymuso lleisiau eraill, gan hyrwyddo newid mewn Trafnidiaeth, Tai, Cyflogaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae **Ben Geiger** yn Athro yn King's College Llundain, ac mae'n dod ag arbenigedd academiaidd yn ogystal â phrofiad mewn datblygu polisiau (gan gynnwys o fewn yr Adran Gwaith a Phensiynau) a chyd-gynhyrchu. Ar hyn o bryd mae'n arwain y prosiect WelfareExperiences (sy'n cymharu sut mae'n teimlo i hawlio budd-daliadau mewn pum gwlad), ac yn flaenorol cyd-arweiniodd yr astudiaeth ymateb cyflym fawr o fudd-daliadau yn ystod Covid-19.

Mae **Katrina Gilman** yn eiriolwr angerddol dros gydraddoldeb i bobl anabl, gan dynnu ar brofiad byw o anableddau lluosog a'i rôl fel gofalwr. Ar ôl 25 mlynedd mewn plismona, mae hi bellach yn gweithio i chwalu rhwystrau a hyrwyddo tegwch, hygyrchedd a chyfle—gan ysgogi newid sy'n grymuso pobl anabl i ffynnu.

Mae gan **Jean-André Prager** gefndir polisi helaeth mewn PIP a materion anabledd ehangach. Yn flaenorol, roedd yn Gynghorydd Arbennig i'r Prif Weinidog ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau ac ar hyn o bryd mae'n Uwch Gymrawd yn Policy Exchange ac yn Gyfarwyddwr yn Flint Global.

Mae **Dr Lucy Reynolds** yn entrepreneur cymdeithasol, yn siaradwr cyhoeddus ac yn eiriolwr dros hawliau anabledd. Sylfaenydd We Are All Disabled CIC a Chadeirydd

Disability North, mae hi'n hyrwyddo dull Cadarnhaol o ymdrin ag anabledd, gan ddefnyddio profiad byw ac ymchwil academiaidd i herio canfyddiadau ac ysgogi newid diwylliannol cynhwysol.

Mae **Dr Felix Shi** yn dod â phrofiad byw fel academydd anabl, ochr yn ochr â mewnwleidiadau cymharol i bolisi anabledd ar draws cyd-destunau cenedlaethol lluosog. Fel cyn-aelod o fwrdd Anabledd Cymru ac aelod presennol o Grŵp Mynediad Arfon, mae Felix yn gweithio i gysylltu llunwyr polisi â DPOs lefel sylfaenol yng Nghymru.

Dr Dharshana Sridhar yw Pennaeth Materion Cyhoeddus y Spinal Injuries Association, gan gynrychioli lleisiau pobl ag anafiadau i'r llinyn asgwrn cefn yn genedlaethol. Gyda phrofiad byw fel gofalwr hirdymor ac arbenigedd helaeth mewn polisi llywodraeth y DU a rhyngwladol, mae hi'n gweithio i lunio polisi nawdd cymdeithasol teg ac yn hyrwyddo hawliau, urddas ac annibyniaeth pobl anabl a chymunedau sydd wedi'u hymylu.

Phil Stevens yw Prif Weithredwr Disability Action Haringey a Chadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Disability Action yn Islington. Mae'n arweinydd anabl gyda phrofiad helaeth mewn eiriolaeth ar gyfer defnyddwyr, polisi a datblygu strategol, gan weithio i hyrwyddo hawliau, mynediad a chynhwysiant i bobl anabl a phobl fyddar ledled Llundain.

Mae **Leila Talmadge** yn rheolwr a dylunydd prosiect awtistig a dyslecsig. Fel cyn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr elusen Daytrippers, sy'n darparu digwyddiadau cynhwysol i bobl ifanc anabl yn y DU, a chyn Gyfarwyddwr Autistic Knowledge Development yn yr Alban, mae hi'n dod ag arbenigedd mewn creu mannau cynhwysol.